# Cenn@d

CHWEFROR 19 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 208




## EBC yn lansio Apêl Manipur i helpu miloedd o ffoaduriaid

‘Mae gennym ni berthynas arbennig gyda phobl Gogledd-ddwyrain India. Allwn ni ddim cerdded i ffwrdd oddi wrth ein cyfrifoldebau,’ meddai Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC.

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) wedi lansio apêl ariannol i helpu miloedd o ffoaduriaid sydd wedi’u dadleoli yng Ngogledd-ddwyrain India. Ymdrech ddyngarol yw hon i gefnogi pobl Manipur, India, sy’n wynebu erledigaeth a thrais difrifol. Mae hyn mewn ymateb i’r cynnwrf treisgar a gychwynnodd ym Manipur ym mis Mai 2023, ac a arweiniodd at ddinistrio cannoedd o eglwysi, cartrefi, a dadleoli degau o filoedd o bobl. Ers hynny, mae cannoedd o bobl wedi marw. Mae llawer o’r ffoaduriaid bellach wedi’u dadleoli mewn gwersylloedd ffoaduriaid mewn gwledydd cyfagos.

Ymwelodd y Parch. Nan Powell Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, â gwersyll ffoaduriaid ym Mizoram yn ddiweddar. Roedd y Parch. Rebecca Lalbiaksangi, sy’n hanu o Mizoram ond sydd bellach yn weinidog Gofalaeth Dwyrain Maldwyn, yn gwmni iddi. Mae’r gwersyll hwn ym mryniau Mizoram bellach yn gartref i 40 o deuluoedd o Manipur.



Dywedodd Nan Powell Davies: ‘Pan gyrhaeddodd Thomas Jones Gogledd-ddwyrain India yn y 1840au, pregethodd yr efengyl a gwnaeth addewid dwys iddynt. Ymroddodd ef a’i enwad i feithrin perthynas arbennig â nhw. Gwnaeth gyfamod â nhw ac allwn ni ddim cerdded i ffwrdd oddi wrthyn nhw yn eu hawr o angen.

‘Fe wnes i gyfarfod â theuluoedd sy’n dyheu am heddwch, ond sydd wedi colli popeth ac wedi profi poen anghredadwy. Serch hyn oll, maen nhw’n canfod gobaith yn ei gilydd ac yn Nuw.




‘Yn ystod 2025, rydym yn gofyn i unigolion ac eglwysi roi’n hael, i helpu ein brodyr a chwiorydd i ddychwelyd adref ac ailadeiladu eu tai a’u busnesau.’

Yn ystod eu hymweliad, cyfarfu Nan a Rebecca â dau ffoadur arbennig a gwnaeth eu straeon argraff fawr arnynt. Eu henwau (wedi’u newid am resymau diogelwch) yw Robert a Kimteii.

### Fy enw i yw Robert

Mae fy nhŷ a ’musnes i wedi mynd, wedi llosgi i’r llawr. Roeddwn wedi gwario fy holl gynilion ar adeiladu a sefydlu meithrinfa. Roeddwn i mor falch o fy musnes a fy ngwaith gyda theuluoedd. Ac yn awr mae’r cyfan wedi diflannu. Nid fi yn unig sydd wedi dioddef fel hyn; mae hyn yn wir am



lawer o rai eraill. Roedd gen i gymdogion oedd wedi gweithio yn y fyddin ac wedi gwario’u pensiwn ar adeiladu eu cartrefi eu hunain. Mae’r tai hyn hefyd wedi’u llosgi’n ulw. Rwy’n hiraethu am fynd adref, rydyn ni i gyd yn gwneud hynny, ond nid yw’n bosibl. Mae popeth wedi mynd. Does yna ddim cyfleusterau meddygol nac ysgol ar ôl. Mae’r cyfan wedi’i losgi’n ulw. Pan ymosododd pobl Metei arnon ni, fe wnaethon nhw roi popeth ar dân a bu’n rhaid i ni redeg am ein bywydau. Fe redon ni i lawr y cwm, fi, fy ngwraig a fy mhlant. Edrychais yn ôl a’r cyfan roeddwn i’n gallu ei weld oedd awyr oedd fel petai ar dân.

### Fy enw i yw Kimteii

Bu’n rhaid i ni ffoi pan ddechreuodd y tanau ac fe wnes i redeg i’r jyngl, gyda’n mab pum mlwydd oed, fy ngŵr, fy rhieni yng nghyfraith a’m brawd yng nghyfraith. Mae’r hyn welodd fy mab a’r arswyd o redeg i ffwrdd wedi cael effaith ofnadwy arno. Rydyn ni wedi colli popeth, does gennym ni ddim byd nawr. Yn ôl ym Manipur, roedd gennym ni fferm a busnes, ond mae hynny i gyd wedi mynd ac rydyn ni’n dibynnu ar haelioni pobl Mizo. Rydyn ni wedi blino’n lân a dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd ein dyfodol. Mae fy mab yn arswydo wrth feddwl y gallem fynd yn ôl i Manipur. Mae’n

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Capel gwledig yn croesawu partneriaeth eciwmenaidd newydd
**Tudalen 3**

Dydd Gweddi’r Byd 2025
**Tudalen 4**

Anglyion
**Tudalen 8**

## *EBC yn lansio Apêl Manipur i helpu miloedd o ffoaduriaid*

*(parhad o dudalen 1)*




cael hunllefau ofnadwy am y llosgi a'r trais a welodd – ond bydd yn rhaid inni fynd yn ôl pan allwn ni. Dyna'n cartref.

I gael rhagor o wybodaeth am Apêl Manipur ac i gyfrannu ewch i:

https://www.ebcpcw.cymru/cy/apelmanipur/

### Beth yw cysylltiad EBC â Manipur?

Dechreuodd ein cysylltiad fel eglwys a chenedl â thalaith Manipur, India, ddechrau'r ugeinfed ganrif. Fe ysbrydolwyd nifer o genhadon Cymreig gan fendith tywalltiad yr Ysbryd Glân yn Niwygiad 1904/05 i'w cynnig eu hunain fel cenhadon yn India. Un o'r rheiny oedd chwarelwr ifanc o'r enw Watkin Roberts o Gaernarfon. Aeth ef, yng nghwmni'r cenhadon meddygol Dr Peter Fraser a'i wraig, Mary Catherine Fraser, i Mizoram ar ei draul ei hun yn 1908. Ac yntau'n 22 oed pan gyrhaeddodd Mizoram, fe gafodd yr enw 'Pu Tlangval' (Mr Dyn Ifanc), enw a gadwodd weddill ei oes.

Roedd gan Watkin Roberts gonsýrn arbennig am lwyth yr Hmar yng ngogledd Mizoram a de Manipur oedd prin wedi clywed am yr Efengyl cyn hynny. Dysgodd eu hiaith, oedd yn debyg iawn i iaith Mizo, a sicrhaodd gopïau o Efengyl Ioan i'w hanfon yn rhodd at benaethiaid pentrefi'r llwyth. Stori ddiddorol yw honno sydd yn dwyn i gof haelioni Miss Emily Davies, a roddodd y £5 cyntaf i Watkin Roberts a'i hysbrydolodd a'i alluogi i ymgymryd â'r genhadaeth hon.

Daeth neges yn ôl gan benaeth pentref Senvawn dros y ffin yn Manipur yn gofyn ar i rywun ddod i esbonio'r hyn oedd yn cael ei ddweud yn y llyfr iddyn nhw ac i sôn am Dduw. Ond roedd y pentref mewn talaith arall, ac nid oedd hawl gan genhadon o Mizoram i fynd dros y ffiniau taleithiol oedd wedi eu gosod gan lywodraeth Prydain a Maharajah Manipur. Er y peryglon a'r rhybuddion y byddai'n cael ei ladd gan y llwyth ffyrnig hwn, fe sicrhaodd Watkin Roberts y caniatâd oedd ei angen i fynd yno ar daith genhadol fer yn 1910 ynghyd â phedwar o gyd-weithwyr brodorol o Aizawl.

Wedi pum niwrnod o ddysgu yno am yr Efengyl, fe gyhoeddodd y pennaeth a phedwar gŵr arall o'r llwyth eu bod am wneud heddwch gyda Duw'r Beibl a chredu yn Iesu Grist. Daeth pentref Senvawn yn ne Manipur yn ganolfan ar gyfer yr Efengyl. Byddai'r ganolfan honno'n cael effaith ar weddill y dalaith wrth i ysgol ac eglwys fywiol newydd gael ei sefydlu yno. Er nad oedd ganddo ganiatâd i aros yno i weithio, fe gadwodd Watkin Roberts mewn cysylltiad â'r eglwys ifanc hon a'i chefnogi drwy sefydlu cenhadaeth a fyddai'n cynnwys y cenhadon cyntaf o Mizoram ei hun. O fewn dwy genhedlaeth yr oedd llwyth yr Hmar wedi troi bron yn gyfan at yr Efengyl, a miloedd o eglwysi wedi eu sefydlu ymysg amrywiaeth eang o lwythau ethnig ar draws Talaith Manipur i gyd.

Am ragor o wybodaeth am Apêl Manipur a sut i gyfrannu, dilynwch y ddolen hon: https://www.ebcpcw.cymru/en/manipurappeal/

### Podlediad Apêl y Llywydd

Cliciwch yma i wrando ar bodlediad Nan Powell-Davies a Rebecca Lalbiaksangi am Apêl y Llywydd: https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/1885531/

## 'She Ultra' Nan at Apêl Manipur

Dydd Sadwrn, 12 Ebrill, mi fydda i'n cymryd rhan mewn 'Ultra Marathon' ym Mhen Llŷn. Y bwriad yw cerdded, a phwy a wŷr efallai redeg ychydig o'r 50km (31milltir) o amgylch Pen Llŷn.

Fe fydd pob milltir, a phob cam yn wir, yn codi arian at apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni, sef 'Apêl Manipur'.

Ers mis Mai 2023 mae gwrthdaro ethnig ffyrnig wedi bod rhwng llwythau'r Meitei a'r Kuki-Zou yn nhalaith Manipur yng Ngogledd-ddwyrain India. Yn y cyfnod hwnnw mae miloedd o gartrefi a channoedd o bentrefi ac eglwysi Cristnogion y Kuki-Zou wedi eu llosgi'n ulw, a channoedd ohonynt wedi colli eu bywydau. Mae miloedd ar filoedd o aelodau'r llwyth wedi eu dadleoli ar hyd a lled y rhanbarth a'r byd,




ond yn arbennig yn y taleithiau cyfagos yn y Gogledd-ddwyrain.

Fel Eglwys yma yng Nghymru, mae ein cysylltiad ni â llwythau Gogledd-ddwyrain India yn mynd yn ôl bron i ddwy ganrif. Oherwydd y berthynas arbennig hon, ni allwn oddef gweld Cristnogion y Kuki-Zou yn cael eu herlid fel hyn, heb estyn llaw i'w cynorthwyo a chydsefyll mewn gweddi a gweithred efo nhw.

Ar ymweliad ag Aizawl, Mizoram, ym mis Rhagfyr y llynedd, cefais gyfle i ddathlu'r Nadolig gyda'r gymuned o 40 o deuluoedd o Manipur oedd wedi eu dadleoli yno. Dyma ddywedodd Robert, un o'r tadau ifanc y cefais gyfle i'w holi: 'Rydym ni'n hiraethu am gael dychwelyd adref, ond ar hyn o bryd mae hynny'n edrych yn bur annhebygol. Mae ein hangen ni mor fawr, ond rydym ni'n parhau i obeithio.'

Rydw i'n bwriadu cerdded/ rhedeg y daith i gasglu arian i weld Robert a miloedd lawer o rai tebyg yn adennill eu hurddas ac yn cael dychwelyd i'w cartrefi a'u cymunedau, i'w hailadeiladu mewn diogelwch. Ar ran Robert a miloedd o rai eraill o'n brodyr a'n chwiorydd yn Manipur, diolch i chi am eich haelioni.

Gellir clicio yma i gyfrannu at daith Nan.

# Capel gwledig yn croesawu partneriaeth eciwmenaidd newydd




Ym mhentref bach Llanwrthwl ym Mhowys ar 1 Chwefror 2025, cymerwyd cam eciwmenaidd pwysig ymlaen. Ymunodd Eglwys Sant Gwrthwl ac Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC) Penuel fel un gynulleidfa, a fydd yn addoli yn adeilad Penuel. Dyma'r Bartneriaeth Eciwmenaidd Leol newydd gyntaf i'w sefydlu ers rhai blynyddoedd o dan Ganon Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol yr Eglwys yng Nghymru. Mae hwn yn caniatáu i glerigion ac arweinyddion lleyg y ddau enwad weinidogaethu'n llawn i'r gymuned. Bydd gwasanaethau'r Sul yn y capel yn y dyfodol yn adlewyrchu'r ddau draddodiad.

Mewn atgof teimladwy o sefydlu'r capel cynulleidfaol gwreiddiol yn 1832, arwyddodd holl aelodau lleol y ddwy eglwys gyfamod lleol newydd. Mae'r cyfamod yn nodi sut y bydd yr eglwysi'n cydweithio, gan barchu'r ddau draddodiad ond yn barod i ymateb i alwad Duw ar y gynulleidfa. Fe'i hysgrifennwyd ar ôl llawer o ymgynghori rhwng yr eglwysi lleol ac arweinyddion enwadol.

Roedd y geiriau a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno'r Cyfamod lleol yn seiliedig ar y Cyfamod ar gyfer Undod yng Nghymru, sy'n dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni. Yn sgil yr addewidion a wnaed yn y cyfamod hwn rhwng yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a nifer o gynulleidfaoedd y Bedyddwyr yng Nghymru, cafodd Canon Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol ei basio gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn 2005. Gobaith partneriaid y Cyfamod yw y bydd y fenter hon yn Llanwrthwl yn ysbrydoli cymunedau eraill – trefol a gwledig – i gymryd camau gweladwy tuag at undod pobl Dduw.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y clerigwyr lleol: y Parchg Chris Coe a'r Parchg Robert Simpson; Archddiacon Aberhonddu, yr Hybarch Alan Jevons; Llywydd yr URC yng Nghymru, y Parchg David Salsbury a Swyddog Eciwmenaidd Cymru yr URC, y Parchg Martin Spain. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Gethin Rhys, Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), a draddododd bregeth ysbrydoledig yn annog yr eglwys i godi a byw yn ei chymuned.

Meddai'r Archddiacon, "Ar adeg pan glywn gymaint am ymrannu a gwrthdaro, roedd yn wych gweld Cristnogion yn cofleidio'i gilydd ac yn gweithio tuag at undod a harmoni." Dywedodd Martin Spain, "Daeth y sbardun i ffurfio partneriaeth gan yr eglwysi lleol. Roeddent wedi bod yn cydweithio ers peth amser a phenderfynwyd y byddai trefniant mwy ffurfiol yn dda. Arweiniodd y penderfyniadau lleol at ffurfio Cyfamod, oedd yn gosod y sail i fod yn un gynulleidfa. Roedd y Cyfamod yn galluogi trefnu cytundeb i rannu'r adeilad a chyfansoddiad newydd. Mae modd gwneud!" Ychwanegodd Chris Coe, "Roedd heddiw yn ddiwrnod hanesyddol."



# Dydd Gweddi'r Byd 2025

Eleni, ar 7 Mawrth, bydd pobl o gwmpas y byd yn ymuno i weddïo mewn gwasanaeth sydd wedi cael ei baratoi gan ferched Cristnogol o Ynysoedd Cook ar y thema 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Mae Ynysoedd Cook yn cynnwys 15 ynys wedi'u gwasgaru dros 2 filiwn cilometr sgwâr o fewn y Cefnfor Tawel. Yn 2021 dathlwyd 200 mlwyddiant dyfodiad Cristnogaeth i'r ynysoedd drwy genhadon o Gymdeithas Genhadol Llundain. Erbyn heddiw mae dros hanner y boblogaeth yn perthyn i eglwysi Cristnogol.

Ar sail geiriau'r thema o Salm 139, ac wedi eu gwau o fewn storïau tair merch Gristnogol, mae'r gwasanaeth o addoliad yn ein gwahodd i gydnabod bod Duw wedi creu pob un ohonom â gofal a chariad, ein bod yn unigryw ac yn arbennig. Dywedant:

> Mae Duw yn ein hadnabod yn bersonol ac rydyn ni'n arbennig i Dduw am ein bod yn unigryw. Pan fyddwn yn agor drysau ein calonnau i'r gwirionedd hwn, mae popeth yn ein bywyd yn newid. Rydym yn gynnes y tu mewn ac yn dechrau trin pobl eraill fel plant annwyl i Dduw. Drwy'r gwasanaeth hwn gobeithio y bydd pobl yn cael eu dyrchafu'n ysbrydol wrth iddyn nhw ddod i ymddiried yng nghariad mawr Duw.

Os nad yw eich capel chi wedi ymuno yn y Dydd Gweddi o'r blaen, beth amdani eleni? Mewn sawl ardal mae capeli/eglwysi yn dod at ei gilydd i gynnal gwasanaeth. Mae adnoddau deniadol (am ddim) ar gael ar gyfer cynnal y gwasanaeth. Paratowyd taflen sy'n cynnwys y gwasanaeth llawn, yn ogsytal â chyflwyniad PowerPoint. Mae gwybodaeth am Ynysoedd Cook hefyd ar gael ar ffurf PowerPoint a sgript. Yn ogystal, mae yna daflen Gweithgareddau Plant.

Mae gan Ddydd Gweddi'r Byd bwyllgor yma yng Nghymru, a'r pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am baratoi'r deunydd Cymraeg yn ogystal â dosbarthu grantiau ariannol bach ar gyfer gweithgaredd Cymraeg er hybu Cristnogaeth (e.e. cynhyrchu deunydd Cymraeg gan eglwysi, deunydd i annog addoliad ac ar gyfer ehangu gwaith Ysgolion Sul). Ni roddir grant tuag at gynnal a chadw adeiladau ac ni ellir gwarantu y dyfernir grant.

Am ffurflen grantiau neu fwy o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am grant, cysylltwch â Mrs Margaret Morgan (trysorydd) ar 07753 195018 neu margaretmaudmorgan@gmail.com. Y dyddiad cau i dderbyn cais yw diwedd mis Mawrth.




Rhoddir ystyriaeth i'r ceisiadau ym mis Ebrill a bydd pob cais llwyddiannus yn derbyn siec ym mis Mehefin.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu adnoddau, cysylltwch â'r ysgrifenyddion: Eirian Roberts eirian.roberts@ebcpcw.cymru neu Sarah Morris sarah.morris@ebcpcw.cymru.

Neu, hwyliwch draw i'n tudalen Facebook 'Dydd Gweddi'r Byd'.

## Gair o gydymdeimlad

### Lucy Pat Curl

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Bill Curl, Cyn-lywydd Adain ddi-Gymraeg Undeb y Bedyddwyr (2000–2001), ar farwolaeth ei wraig, Lucy Pat, yr wythnos ddiwethaf. Mae'n ddrwg iawn gennym orfod rhannu y bu i Lucy Pat farw yn dilyn ymosodiad treisgar yn ei chartref yn Orlando, Fflorida, gan dresmaswr iddo. Fe'i curwyd a'i tharo'n anymwybodol, ac wedi iddi gael ei rhoi mewn coma meddygol fe derfynwyd ei gofal lliniarol. Rydym am sicrhau i'r teulu ein cariad a'n gweddïau fel teulu Bedyddiedig yng Nghymru.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 23 Chwefror, am 7.30yh – Mis Hanes LHDTC+**

Bydd Nia Roberts ar Ynys Môn i nodi Mis Hanes LHDTC+ yng nghwmni'r dramodydd a'r llenor Gareth Evans-Jones. Daw'r canu mawl o Gapel Mawr Amlwch dan arweiniad Trystan Lewis. A chawn berfformiad arbennig o Gapel Coffa John Elias, Llangefni.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 23 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 23 Chwefror, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Aled Lewis, Pontrhydfendigaid

# Ymchwiliad yn edrych ar effaith Covid-19 ar addoldai a grwpiau ffydd

Yn dilyn agoriad swyddogol Modiwl 10 Ymchwiliad Covid-19, mae tîm yr ymchwiliad wedi gwahodd cyrff Eglwysi Ynghyd ledled y Deyrnas Unedig i fynychu digwyddiad arbennig, gydag eraill, ar 20 Chwefror i drafod effaith pandemig Covid-19 a chyfyngiadau'r llywodraeth ar grwpiau ffydd ac addoldai,.

Er i gais Gwasanaeth Cynghori Deddfwriaethol yr Eglwysi (CLAS), yr ydym yn rhan ohono, am statws 'cyfranogwr craidd' yn y modiwl hwn gael ei wrthod, mae Cytûn yn croesawu'r cyfle i siarad yn uniongyrchol â thîm yr ymchwiliad am ein profiadau, a cheisio cyngor ar gyflwyno tystiolaeth bellach.

Bydd cyrff eciwmenaidd yn cyflwyno tri darn o ymchwil a gyhoeddwyd eisoes i hwyluso'r drafodaeth:

- Adroddiad Sgwrs Genedlaethol Cytûn (Mawrth 2021)
- *Adapt and Be Flexible: The Mission Continues* (Ionawr 2021), a baratowyd gan Brendan Research ar gyfer ACTS (Eglwysi Ynghyd yn yr Alban) a Fforwm Arweinwyr Eglwysi'r Alban
- *People Still Need Us* (Mai 2020) a *Something Other than a Building* (Ionawr 2021) gan Gladys Daniel ar gyfer Cyngor Eglwysi Iwerddon.

Er mai drwy wahoddiad yn unig y gellir mynychu'r digwyddiad hwn, nid yw cyflwyno tystiolaeth i'r Modiwl yn gyfyngedig, a bydd Cytûn a CLAS yn gwneud hynny ar ran ein haelod eglwysi a sefydliadau. Gall unigolion gyfrannu drwy'r cynllun Mae Pob Stori o Bwys. Bydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth (tua hydref 2025 yn ôl pob tebyg) a dyddiadau'r gwrandawiadau llafar (dechrau 2026) yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Diwrnod i gofio pum mlynedd ers dechrau'r pandemig**

Yn y cyfamser, mae Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Lisa Nandy AS, wedi cadarnhau y bydd **Diwrnod Myfyrio COVID-19** yn cael ei gynnal ddydd Sul, 9 Mawrth 2025, i gofio'r pandemig a'i effaith ar gymunedau ledled y Deyrnas Unedig. I nodi pumed pen-blwydd y pandemig, gwahoddir pobl i ddod at ei gilydd i gofio a myfyrio ar y cyfnod unigryw hwn yn ein hanes yn ogystal â'u profiadau eu hunain.

Bydd y diwrnod yn cynnig cyfle i'r cyhoedd gofio a choffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig, myfyrio ar yr aberth a wnaed a'r effaith ar ein bywydau bob dydd. Bydd hefyd yn gyfle i dalu teyrnged i waith staff iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr rheng flaen, ymchwilwyr a phawb a wirfoddolodd ac a ddangosodd garedigrwydd yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Gan ei fod ar ddydd Sul, efallai y bydd eglwysi am ystyried ymgorffori elfennau o'r Diwrnod Myfyrio yn eu hoedfaon y diwrnod hwnnw.


Llun: wikipedia.org

*Allan o Fwletin Polisi Cytûn Chwefror / Mawrth. Gellir dod o hyd i'r Bwletin llawn, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol yn Senedd Cymru a San Steffan a nifer o bytiau newyddion eraill o ddiddordeb inni fel eglwysi, ar wefan* www.cytun.co.uk

Ar y Diwrnod Myfyrio, bydd rhifyn arbennig o *Bwrw Golwg* ddydd Sul, 9 Mawrth, am 12.30 o'r gloch ar Radio Cymru, yn ystyried sgileffeithiau pandemig COVID-19 ar y byd crefyddol yng Nghymru.

## Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2–9 Awst 2025: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru **am 7.00 nos Fercher, 12 Mawrth, yng Nghapel y Groes, Wrecsam**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod mewn maes pwrpasol ar gyrion dinas Wrecsam, a hynny rhwng 2 a 9 Awst 2025, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

## Taro'r Post

Sylwais ar erthygl ogleisiol yn y *Daily Post* yn ddiweddar â'r pennawd 'Hundreds of old chapels should become social housing'.

Trist iawn yw sylwi ar y pentwr o hen addoldai yma ac acw wedi mynd yn ysglyfaeth i adfeiliad – neb yn mynychu a neb yn malio. Gan fod nifer yr addolwyr ffyddlon yn crebachu a phobl o bob oed yn troi cefn ar fynychu hen adeiladau oer, anaddas i'n byd modern, amhosibl yw cynnal pob un ohonynt gyda chyn lleied o aelodau ar y gofrestr.

Gyda phob parch, mae'r hen adeiladau enfawr o'r oes o'r blaen yn llawer rhy ddrud i'w gwresogi ac yn bendant yn rhy anodd i'w cynnal a chadw. Mae hi bron yn ofer ymdrechu i addasu POB adeilad o'r fath. Rhaid mynd ati i sefydlu canolfannau addas, hwylus, hyblyg a chynnes – hyd yn oed cyfforddus hefyd, er budd cymdeithas. Beth sydd ei angen ydy llefydd ysgafn, prydferth sy'n hawdd i'w haddasu at ddefnydd cymaint â phosib o bobl.


O deled y dydd pan fydd yna UN ganolfan yn gwasanaethu sawl pentre / ardal â mwy nag un enwad yn fodlon rhannu adnoddau o bob math.

Pa rinwedd a berthyn i furddun – onid gwell yw cael bywyd yn y cerrig?

*G. Jones*
*Treffynnon*

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 7: Myfyrdod**

**Llyfr y Pregethwr 3:10–22**

Yn dilyn y gerdd am amser y mae'r Pregethwr yn myfyrio ymhellach ar bwysigrwydd gwneud popeth yn ei bryd. Mae'n gofyn y cwestiwn unwaith eto, "Beth mae'r gweithiwr yn ei ennill ar ôl ei holl ymdrech?" (3:9), gan ateb ei gwestiwn ei hun, yn fwy calonnog y tro hwn na'r tro diwethaf yn 1:13. Yma etyb gan ddweud, "Mae Duw'n gwneud i bopeth ddigwydd yn berffaith ar yr amser iawn" (3:11). Un o'r pethau anodd gyda'r llyfr hwn yw rhoi'r cynnwys yng nghyd-destun Duw a Christnogaeth. Beth yw agwedd yr awdur at Dduw mewn gwirionedd? Arwyddocaol felly yw ei fod yn enwi Duw yma bump o weithiau mewn chwe adnod (3:10–15). Yn yr adnodau hyn mae'n ein harwain i ystyried y modd y mae Duw yn llywodraethu dros ein bywydau gan roi bendithion lu. Yn y cyd-destun hwn y mae Duw wedi trefnu'r cwbl sy'n angenrheidiol ar gyfer y ddynoliaeth; nid hap yw sylfaen ein bodolaeth. Ond ar yr un pryd, mae Duw yn creu rhwystredigaeth trwy ein hamddifadu o'r gallu i ddirnad ei ewyllys a deall yr hyn a ddigwydd yn y presennol (3:11).

**Diorffwys**

Credaf fod y cymal hwn, "rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl" (3:11; BCND), yn un o'r rhai mwyaf arwyddocaol yn Llyfr y Pregethwr. Dywedaf hyn oherwydd ei fod yn rhoi rheswm am y dyhead sydd yng nghalonnau pobl am yr ysbrydol ac am berthynas gyda Duw. Yn ein hoes anghrediniol gyfoes ni mae syched o hyd am fwy na'r materol. Ynom mae syched na all materoliaeth ei ddiwallu. Mae Duw wedi ein creu ar gyfer tragwyddoldeb ac oni bai fod yr angen hwnnw sydd ynom yn cael ei fodloni, rydym yn anghyflawn yn barhaus. Fel y dywedodd Awstin Sant mor afaelgar yn ei gyffesion, "Diorffwys ydym hyd nes y gorffwyswn ynot ti."

Gwyddom eisoes fod y Pregethwr yn barod iawn i gydnabod nad oes ganddo atebion i gwestiynau dyrys bywyd. 'Pwy a ŵyr?' yw un o'i ddywediadau mwyaf cyffredin. Ond cawn yma ddwy enghraifft o'r hyn y mae'n ei wybod. Gwnawn yn fawr ohonynt. Gŵyr ei bod yn bosibl mwynhau bywyd am mai dymuniad Duw yw bod pawb yn llwyddo ac yn ffynnu. Felly, dyletswydd dynion yw ufuddhau i'r ewyllys dwyfol a bod yn llawen trwy fwyta ac yfed a chael pleser yn eu llafur (3:12–13).

**Anghyfiawnder**

Ond wedi paragraff cymharol gadarnhaol mae'r awdur unwaith eto'n syrthio i bydew dryswch. Y tro hwn mae'n tafoli un o athrawiaethau creiddiol crefydd yr Iddew, sef cyfraith cosb a gwobr. Dyma'r syniad fod tynged pob unigolyn yn dibynnu ar ei weithredoedd. Mewn sgwrs ag ef ei hun, mae'n rhoi llais i'r syniad y bydd Duw'n barnu'r 'cyfiawn a'r drygionus' ymhen hir a hwyr, fel y dywed Cyfraith Moses (gw. e.e. Exodus 34:6–7). Ond gan fod 'drygioni wedi cymryd lle barn a chyfiawnder' (Pregethwr 3:16), chwelir ei obeithion o weld y naill yn cael ei achub o grafangau'r llall yn y byd sydd ohoni.

Mae ei brofiad o fywyd wedi'i amddifadu o neges hyderus y proffwydi fod y byd yn gyfiawn, ac o gred ei gyfoedion y caiff y ffyddloniaid eu gwobr yn y byd a ddaw. Hyd y gwêl ef, mae bywyd yn llawn arwyddion fod y cyfiawn yn dioddef ar gam a'r anghyfiawn yn osgoi cosb.

**Suddo'n ddyfnach i'r pydew**

Nid yw'r Pregethwr yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng tynged pobl ac anifeiliaid: 'Y mae'r naill fel y llall yn marw. ... Y maent i gyd yn mynd i'r un lle' (3:19–20). Ac am mai 'yr un anadl sydd ynddynt', a'u bod yn dychwelyd i'r llwch (gw. Genesis 3:19), nid yw'n gweld fod 'gan neb dynol fantais dros anifail' (Pregethwr 3:19). Dyma syniad gwahanol iawn i'r hyn a geir yn Genesis 1 a Salm 8. Ond y mae tynged yr 'ysbryd', neu'r 'anadl einioes' a roddodd Duw i ddyn ac anifail (gw. Genesis 2:7; 7:15) ar ôl marw, yn ddirgelwch llwyr (Pregethwr 3:21).

Wrth ddirwyn ei fyfyrdod ar anghyfiawnder bywyd i ben, mae'r awdur yn gwneud un pwynt arall. Iddo ef, mae'r ansicrwydd ynghylch tynged y ddynoliaeth wedi marwolaeth yn pwysleisio gwerth y presennol. Yn wyneb troeon yr yrfa, mae'n ailadrodd ei gyngor i ddyn 'fwynhau ei hun yn ei waith', gan gofio mai rhodd Duw yw'r gallu i gael pleser mewn bywyd. Nid oes dim byd gwell yn debygol o ddod i'w ran (3:21).

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Trafodwch beth yw ystyr ac arwyddocâd y geiriau "rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl' (3:11).
2. A yw pobl ac anifeiliaid yn gyfwerth â'i gilydd?
3. A yw Duw yn cosbi'r drwg?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](www.gair.cymru)

# Mae'r rhod yn troi

Nofel ddifyr a ddarllenais yn ddiweddar oedd *Orbital* gan Samantha Harvey. Ychydig dros gan tudalen ydyw, ac enillodd y Wobr Booker y llynedd. Cadw'n glir o lyfrau ffug-wyddonol a fyddaf fel arfer, ond nofel ffaith wyddonol ydi hon.

Yr hyn a wna'r awdur yw adrodd hanes criw mewn gorsaf ofod yn amgylchynu'r byd, ac mae hynny'n rhoi inni bersbectif cwbl wahanol. Er eu bod mor bell o'r ddaear, mae'r criw yn dal mewn cyswllt â'u teuluoedd. Holi mae'r llyfr beth yw bywyd heb y ddaear? Beth yw'r ddaear heb ddynoliaeth? Mae hefyd yn ymson ar amser, pellter a thragwyddoldeb.

Gan eu bod yn mynd o amgylch y ddaear 16 gwaith mewn diwrnod, maent yn gweld y wawr a'r machlud yn gyson, ac mae rhywbeth hudol mewn gweld y Ddaear yn goleuo. (Gallwch ei brofi eich hun ar ffrwd fyw yr Orsaf Ofod Ryngwladol.) Dyna Ganolbarth America yn dod i'r fei ... Uzbekistan ... yr eira ar fynyddoedd Kyrgyztan ... ehangder Môr India.

O edrych arni o'r gofod, mae yna rywbeth bendigedig o syml am y cyfan – pêl yn troi mewn gwagle ydyw. Un blaned, un ddynoliaeth. Mae'n arwain yr awdur at feddyliau fel hyn:

> It's the desire ... to protect this huge yet tiny earth. The thing of such miraculous and bizarre loveliness. This thing that is, given the poor choice of alternatives, so unmistakably home. An unbounded place, a suspended jewel, so shockingly bright. Can humans not find peace with one another? With the earth? It's not a fond wish but a fretful demand. Can we not stop tyrannising and destroying and ransacking and squandering this one thing on which our lives depend?

Dyna i chi eiriau sy'n werth eu cofio ar ddechrau blwyddyn. Prin fy mod i'n gallu cael sgwrs efo unrhyw un y dyddiau hyn heb fod Trump yn cael ei grybwyll. Fedra' i ddim edrych ar y newyddion heb fod stori ar ôl stori am y storm o ddinistr ddaw yn ei sgil. A phan ddeffrois am bedwar y bore gyda gwyntoedd Éowyn yn amgylchynu'r tŷ, doedd gen i ddim llai nag ofn. Roedd fel bod grym Trump wedi ei ddiriaethu yn y storm anhygoel honno.

Gall cyfnodau fel hyn siglo ein ffydd. Mae'r golygfeydd o Gaza ar hyn o bryd yn ein lluchio i ddyfnderoedd iselder. Mae mwy o angen ffydd y dyddiau hyn nag erioed – ffydd i gredu fod yna rym mwy nag unrhyw unben sy'n gormesu. Mae Duw'r Cread wrth law i wrando cri.

Bron i gan mlynedd cyn i Samantha Harvey ysgrifennu ei chlasur, mi gyfansoddodd bardd o Ryd-ddu ddarlun o bersbectif ddigon tebyg gyda'i soned, 'Dychwelyd'. O'i darllen yn blentyn ysgol, mi gododd ofn dychrynllyd arnaf. Doeddwn i erioed wedi dod ar draws cerdd oedd yn cyfleu'r fath unigrwydd:

> Ni all terfysgoedd daear byth gyffroi
> Distawrwydd nef; ni sigla lleisiau'r llawr
> Rymuster y tangnefedd sydd yn toi
> Diddim diarcholl yr ehangder mawr.

Bellach, er nad wyf yn rhannu diwinyddiaeth y gerdd, caf gysur o'r geiriau:

> Ac ni all holl drybestod dyn a byd
> Darfu'r tawelwch nac amharu dim
> Ar dreigl a thro'r pellterau sydd o hyd
> Yn gwneuthur gosteg â'u chwyrnellu chwim.

Dyna rydd gysur i mi y dyddiau hyn. Nid y pethau gaiff y sylw ar y newyddion ydi'r pethau pwysicaf yn y byd. Gwyddom y gall ambell i ormeswr ac unben greu andros o ddifrod mewn cyfnod byr, ond nid ar hynny ddylai ein sylw fod. Boed ein gweddïau ni'r dyddiau hyn gyda'r bobl ddewr hynny yn Gaza sy'n tynnu cyrff eu teuluoedd o waelod y rwbel.

Fe ddaw pen draw i hyn. Ambell waith, mae angen edrych ar y byd o'r tu allan. Un byd, un ddynoliaeth sydd yna, a dyna'r nod i gyrchu ato.

*Angharad Tomos*
*O wefan Cristnogaeth 21*

---

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Gweithiwr Cymunedol (Rhan amser)

### Wedi ei leoli yn ne Wrecsam

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, yn chwilio am arloeswr Cristnogol gyda gweledigaeth.

Rydym yn bwriadu dechrau gwaith newydd o amgylch pentrefi a threfi yn ne Sir Wrecsam. Y nod yw galluogi cenhadaeth Gristnogol a hyrwyddo tystiolaeth Gristnogol, yn bennaf drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun dwyieithog.

Mae'r Henaduriaeth yn agored i drafodaethau ag unigolion sydd â galwad glir ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r gwaith hwn a sut y gallant ei gefnogi. Dylent fod yn unigolyn brwdfrydig ac ysgogol i arwain gwaith newydd.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Band 31–35 (£32,150–£34,043 pro rata) ar raddfa gyflog EBC. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Lleolir y swydd hon yn ardal de Wrecsam, a thrwy weithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627465

**Dyddiad Cau: 21ain Mawrth 2025 am 4 o'r gloch y prynhawn**

# Angylion

Beth sy'n dod i'ch meddwl pan glywch y gair angel, neu angylion? Mae llawer o sôn yn y Beibl am angylion, e.e. yr un mwyaf cyfarwydd yw Gabriel yn ymweld â Mair (Luc 1:28 ymlaen) ac angel yn ymddangos i Joseff (Mathew 1:20). Mae cyfeiriadau eraill sy'n rhy niferus i sôn amdanynt yma. Ceisiodd arlunwyr mawr y byd eu portreadu; ymddangosant fel bodau dynol gydag adenydd. Ychydig yn ôl roedd tudalennau *Cenn@d* yn frith o luniau dathlu'r Nadolig yma ac acw yng Nghymru, gyda rhai o'r plant yn gwisgo dillad gwyn ysblennydd, coron-gylch, ac adenydd, yn cynrychioli'r angylion.


Llun: Andika Christian unsplash.com

Ai perthyn i'r Beibl yn unig y maent? Ynteu a oes yna angylion o'n cwmpas heddiw?

Dyma i chi stori. Symudodd cwpwl i fflat ychydig fisoedd yn ôl. Yn ystod oriau mân un bore Sul rhyw chwe wythnos yn ddiweddarach, deffrodd y gŵr gyda phoenau 'angina' yn ei frest. Cawsai wybod eisoes fod angen 'stent' arno, a gwnaed trefniadau ar gyfer y driniaeth ar gyfer dechrau Rhagfyr. Roedd ganddo feddyginiaeth ar gyfer y boen ond er ei defnyddio y bore hwnnw nid oedd y boen yn diflannu.

Fe gofiodd gwraig y gŵr iddi siarad â chymdoges yn y fflat gyferbyn y diwrnod cynt. Dywedodd y wraig honno wrthi, "Cofiwch, os ydych angen unrhyw help, dim ots pa adeg o'r dydd neu'r nos, rhowch gnoc ar y drws." Rhyw 18 awr ar ôl y sgwrs dyna wnaed a daeth y wraig atynt.

Wedi canfod na fyddai ambiwlans yn cyrraedd am ryw awr a thri chwarter gofynnodd y wraig, "Beth ydych chi am ei wneud, aros am yr ambiwlans ynteu gadael i ni fynd â chi i'r ysbyty?" Roeddent yn Ysbyty Glan Clwyd ymhen ugain munud a chafodd y gŵr ei weld ar unwaith a'i hebrwng i ystafell fechan a'i archwilio gan arbenigwr. Tra oedd yn aros i weld meddyg yn dilyn dau archwiliad profodd y gŵr boen wahanol; cadarnhawyd yn ddiweddarach ei fod wedi cael trawiad ar y galon.

Penderfynwyd bod angen triniaeth i osod 'stent', bythefnos ynghynt na'r dyddiad gwreiddiol. Treuliodd y gŵr ddwy noson yn adran gardioleg yr ysbyty cyn cael ei ryddhau. Daeth y gymdoges i gyrchu'r gŵr a'i wraig adref.

Ai cyd-ddigwyddiad oedd i'r gymdoges gynnig cymorth 'waeth pa adeg o'r dydd'? Ynteu Duw-ddigwyddiad?

Yn Genesis 18 sonnir am dri dyn yn ymddangos i Abraham wrth goed derw Mamre. Roedd ganddynt neges bwysig, oddi wrth Dduw i Abraham, y byddai ei wraig, Sara, yn beichiogi yn ei henaint. Mae hyd yn oed y Diafol yn credu bod angylion. Dywedodd Satan, pan oedd yn temtio Iesu yn yr anialwch, y byddai Duw yn gorchymyn "i'w angylion dy ddal yn eu breichiau, fel na fyddi'n taro dy droed ar garreg" (Mathew 4:6).

Ydych chi'n adnabod angel? Ydych chi wedi bod yn angel ym mywyd rhywun?

I'r cwpwl yn y stori, angel oedd y gymdoges. O ia, mae'r stori yn wir, ni yw'r cwpwl!

*Trefor a Miriam Lewis,*
*Hen Golwyn*

# Cymorth Cristnogol – adnoddau ar gyfer y Grawys

Crëwyd yr adnodd Taclo Tlodi ar y cyd â phartneriaid ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol y llynedd.

Rydym bellach wedi diweddaru'r cynnwys yn barod ar gyfer y Grawys 2025.

Mae'r cwrs yn helpu Cristnogion i gael dealltwriaeth ddyfnach o dlodi ac yn ein paratoi i drafod hynny gyda'n cynrychiolwyr gwleidyddol (os dymunwch wneud hynny).

Mae'r chwe sesiwn ar gael nawr gyda adnoddau ychwanegol drwy'r ddolen yma: [Act on Poverty - Christian Aid]

Daw'r adnoddau Cymraeg i'r golwg wedi i chi glicio ar y sesiwn Saesneg:

1 Prophetic / Proffwydol

2 Broken / Toredig

3 Generous / Hael

4 Located / Lleoli

5 Hopeful / Gobeithiol

6 Together / Gyda'n Gilydd

*Llinos Roberts*
*Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru*




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru